DRAFT

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

# Cynllun Perfformiad Gwerth Gorau 2005-06

# CYNNWYS

Cyflwyniad a Nodyn Esboniadol 2

Rhan 1 4
Crynodeb o'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau ar gyfer gwella
Nodau Corfforaethol
Amcanion Corfforaethol

Rhan 2 6
Wynebu ein blaenoriaethau ar gyfer gwella

Rhan 3 8
Y perfformiad yn ddiweddar a'r targedau ar gyfer gwella
Grŵp Teulu

Rhan 4 25
Datganiad ar gytundebau

DRAFFT

# CYFLWYNIAD A NODYN ESBONIADOL

Fel gyda Chynllun Perfformiad Gwerth Gorau (CPGG) y llynedd, mae arddull a chynnwys y Cynllun eleni yn adlewyrchu'r cyfnod pontio yr ydym ni fel awdurdod tân ac achub *yng Nghymru* ynddo ar hyn o bryd.

Yn Lloegr, mae awdurdodau lleol yn cael eu mesur yn ôl Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr (CPA) a wneir gan y Comisiwn Archwilio, yn dilyn datblygu a threialu CPA wedi ei deilwra ar gyfer awdurdodau tân ac achub. Mae'r awdurdodau tân ac achub yn Lloegr hefyd wedi derbyn cyfarwyddyd gwahanol ar lunio eu Cynlluniau Perfformiad.

O ran gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, ni chafodd y cyfrifoldeb ei ddatganoli yn ffurfiol i'r Cynulliad Cenedlaethol tan fis Tachwedd 2004 (pan ddaeth Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i rym yng Nghymru). Ers hynny, mae gwaith wedi mynd yn ei flaen ar ddatblygu cyfarwyddyd statudol ac offeryn asesu ar gyfer Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. Rydym yn disgwyl y bydd y Raglen Cymru ar gyfer Gwella yn cael ei chyflwyno yn Ebrill 2006.

Yn Ebrill, cyhoeddwyd Fframwaith Cenedlaethol cyntaf y Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru. Mae'r paragraffau perthnasol sy'n ymwneud â Gwerth Gorau ar y dudalen nesaf.

Yn y cyfnod pontio hwn, felly, hyd nes y bydd y Rhaglen wedi ei chyflwyno, a datblygiad posib rhai o'r dangosyddion perfformid newydd, rydym wedi mabwysiadu'r un ffordd o fynd ati i lunio ein Cynllun â'r llynedd. Mae'r dangosyddion perfformiad sydd yn Rhan 3 yn union yr un fath â'r rhai ar gyfer awdurdodau tân ac achub yn Lloegr.

Erbyn y flwyddyn nesaf, rydym yn rhagweld y byddwn wedi dechrau ar fframwaith perfformiad a chynllunio newydd, yn cael ei adlewyrchu mewn Cynllun Gwella cynhwysfawr blynyddol.

DRAFT

**FFRAMWAITH CENEDLAETHOL TÂN AC ACHUB AR GYFER CYMRU, a gyhoeddwyd Ebrill 2005:**

**Pennod 9**

**9.8** Er mwyn i Awdurdodau Tân ac Achub ddangos gwelliannau, bydd angen mesurau perfformiad cadarn a mecanweithiau pennu targedau priodol. Hoffem symud o ddefnyddio'r dangosyddion perfformiad (DPion) cyfredol sy'n canolbwyntio'n bennaf ar fewnbynnau a rhywfaint o allbynnau, i ddefnyddio mesurau perfformiad yn seiliedig ar ganlyniadau mewn fframwaith rheoli perfformiad.

**9.9** Dylai'r mesurau perfformiad hyn fod yn addas at bwrpas ac adlewyrchu blaenoriaethau Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub a'r Fframwaith hwn. Mae hefyd yn bwysig i Ddangosyddion Perfformiad ganiatáu meincnodi gydag eraill a disgwylir i DdP hwyluso cymharu ar draws y DU, ac yn rhyngwladol pan yn briodol. Mae DPion lleol hefyd yn bwysig wrth ystyried amgylchiadau lleol ac agendâu gwella.

**9.10** Mae ODPM wedi ymgynghori ar gyfres newydd o DPion Gwerth Gorau ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub yn Lloegr, a bydd hyn yn berthnasol o 2005-06 ymlaen. Cynigir y bydd yr un DPion hefyd yn berthnasol i'r Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru ar gyfer 2005-06. Ein bwriad ni yw ymgynghori ar y DPion Gwerth Gorau hyn ar y cyd â'r Chanllawiau Tân yn Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Mae ODPM hefyd yn datblygu cyfres o DPion lleol yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan 'grwpiau teulu' y Gwasanaeth Tân ac Achub a'r llyfrgell o ddangosyddion perfformiad lleol ar gyfer llywodraeth leol a ddatblygwyd gan y Comisiwn Archwilio a'r Asiantaeth Gwella a Datblygu (IDeA).

**9.11** Yng Nghymru, mae Uned Ddata Llywodraeth Leol yn adolygu'r DPion ar gyfer Llywodraeth Leol ar hyn o bryd, ac yn cynnull grŵp cyfeirio o randdeiliaid allweddol sy'n cynnwys y Gwasanaeth Tân ac Achub, CLILC, y Comisiwn Archwilio yng Nghymru a Llywodraeth y Cynulliad i:

- ddatblygu'r DPion diwygiedig;
- adolygu DPion statudol cenedlaethol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub a gofynion data eraill;
- rhoi ystyriaeth i drefniadau ar gyfer casglu, gwirio, dadansoddi a dosbarthu data perfformiad.

Bydd y grŵp cyfeirio, fel rhan o'r adolygiad, yn ystyried y gwaith cysylltiedig sy'n cael ei wneud yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**9.12** Bydd hi'n bwysig bod y Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol a'r gofynion data eraill yn integreiddio gyda Chanllawiau newydd Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella yr Awdurdodau Tân ac Achub. Bydd rhaid i'r adolygiad o'r Dangosyddion Perfformiad cenedlaethol ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub hefyd ystyried yr arolygiad ehangach a gomisiynwyd gan y Cynulliad o'r fframwaith mesur perfformiad ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru, tra'n cadw at gymaryddion allweddol Lloegr lle bynnag y bo hynny'n bosib.

# Rhan 1
# CRYNODEB O'R AMCANION STRATEGOL A'R BLAENORIAETHAU AR GYFER GWELLA

**Ein cenhadaeth yw gwneud Gogledd Cymru yn ardal fwy diogel i fyw ynddi, i weithio ynddi ac i ymweld â hi.**

## NODAU CORFFORAETHOL

Mae'r nodau sylfaenol hyn yn adlewyrchu pob agwedd ar yr hyn y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn dymuno ei gyflawni yn ei waith o ddydd i ddydd.

1. Atal tanau damweiniol a maleisus.
2. Gwarchod pobl rhag cael eu lladd neu eu hanafu oherwydd tân neu berygl arall.
3. Gwarchod y Gymuned, busnesau a'r Amgylchedd rhag cael niwed gan dân neu berygl arall.
4. Dod o hyd i ffyrdd i wella er mwyn ateb disgwyliadau'r Gymuned.
5. Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon ag y gallwn, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael inni.

DRAFT

# AMCANION CORFFORAETHOL

I gefnogi ein Nodau Corfforaethol, mae gennym gyfres o ugain o amcanion clir sy'n disgrifio sut rydym yn bwriadu mynd ati i gyflawni ein nodau.

**I gyd-fynd â Nod 1, rydym am:**

1) Atal Tanau Damweiniol drwy:
- Addysg Diogelwch Tân mewn ysgolion a mannau eraill
- Gweithgareddau Diogelwch Tân Cymunedol
- Gweithredu deddfwriaeth Diogelwch Tân mewn adeiladau perthnasol
- Hybu gwasanaethu'r Uned Diogelwch Tân Masnachol

2) Atal tanau maleisus drwy:
- Geisio dylanwadu ar ymddygiad grwpiau penodol o bobl
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau ar y cyd â'r Heddlu ac asiantaethau eraill er mwyn gostwng nifer y tanau bwriadol

**I gyd-fynd â Nod 2, rydym am:**

3) Cynnal ein gallu i ymateb yn effeithiol drwy:
- Gadw ffordd effeithiol o roi gwybod i'r Gwasanaeth
- Darparu gwaith effeithiol trwy'r Ystafell Reoli
- Mynd at ddigwyddiadau â'r adnoddau priodol a diffoddwyr tân hyfforddedig sydd â'r offer cywir

4) Hyrwyddo'n egnïol y ddarpariaeth i rybuddio'n gynnar a dianc o bob adeilad petai yna dân
5) Rhoi cyngor i unigolion a sefydliad ar sut i ymateb orau petai yna dân

**I gyd-fynd â Nod 3, rydym am:**

6) Leihau cymaint ag y bo modd ar y tarfiadau ar weithgareddau arferol ar ôl tân neu argyfwng arall
7) Cynorthwyo pobl i ddod dros argyfwng a thrychinebau yn fuan
8) Sicrhau bod ein dulliau gweithredu ni yn achosi cyn lleied o ddifrod ag y bo modd trwy ddefnyddio arferion sy'n rhai cyfrifol a gofalus o'r amgylchedd

**I gyd-fynd â Nod 4, rydym am :**

9) Gadw deialog ystyrlon â'r Gymuned rydym yn ei gwasanaethu, ein partneriaid a budd-ddeiliaid eraill
10) Ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gwynion a gawn
11) Medru dangos ein hymroddiad parhaus i degwch a chydraddoldeb ym mhob maes gweithgarwch
12) Darparu gwasanaeth cyflawn dwyieithog lle caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal
13) Bod o blaid safonau proffesiynol a chadw atynt bob amser
14) Cydymffurfio â phob deddfwriaeth sy'n berthnasol i'r Gwasanaeth Tân
15) Defnyddio'r Fframwaith Gwerth Gorau i ddwyn y Gymuned i mewn wrth geisio cael gwelliannau parhaus yn ein holl waith

**Ac i gyd-fynd â Nod 5, rydym am:**

16) Ddefnyddio a gwella'n barhaus ein prosesau o fewn fframwaith Rheoli Perfformiad cydnabyddedig fel rhan o'r drefn Gwerth Gorau
17) Chwilio am gyfleoedd am bartneriaethau a chydweithio a chyfrannu atynt er mwyn cael y mwyaf o allu i wasanaethu'r cyhoedd
18) Cadw dulliau dynamig a hyblyg i wella, gan gynnwys datblygu ein sefyllfa fel cyfranwyr gweithgar yn y byd masnachol
19) Addasu ein polisïau a'n dulliau gweithredu i ateb heriau a disgwyliadau newydd tra'n parhau i gydymffurfio â rhwymedigaethau cyfreithiol
20) Rheoli ein hadnoddau yn dda, a gofalu bod ein gwasanaeth heddiw ac yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd.

DRAFT

# Rhan 2
# WYNEBU EIN BLAENORIAETHAU AR GYFER GWELLA

Rydym drwy'r amser yn ceisio gweithredu strategaethau a fydd yn cyfrannu at fwy o ddiogelwch i'r cyhoedd. Rydym yn ceisio cyrraedd rhagoriaeth wrth ddarparu ein gwasanaethau i gyd, ond mae'n werth tynnu sylw at rai meysydd penodol o weithgarwch sy'n adlewyrchu ein hymrwymiad i welliant parhaus a chyrraedd ein nodau a'n hamcanion. Dangosir y targedau penodol yn Rhan 3.

Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (WPI)

Fel y fframwaith atebolrwydd a gwella newydd ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, bydd y rhaglen yn sail i'n hasesiadau o bob agwedd ar ein perfformiad. Mae'r cyfarwyddyd statudol a ddatblygwyd yn wreiddiol yn 2002 ar gyfer cynghorau sir a bwrdeistrefi sirol yn ddiweddar wedi bod yn destun adolygiad i'w ddiweddaru. Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn datblygu cyfarwyddyd gwahanol ar gyfer yr awdurdodau tân ac achub.

Y Fframwaith Cenedlaethol

Yn dilyn datganoli'n llawn y cyfrifoldeb am y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru i'r Cynulliad Cenedlaethol yn Nhachwedd 2004, cyhoeddodd y Cynulliad ei fframwaith cenedlaethol cyntaf ar gyfer y gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru ryw bum mis yn ddiweddarach. Roedd targedau gwella yn ymwneud ag ystod o faterion wedi eu cynnwys, a rhagor o eglurhad wedi ei addo yn ystod 2005/06.

Cynlluniau Integredig Rheoli Risg (Cynllun Risg / IRMP)

2004-05 oedd y flwyddyn lawn gyntaf i'r Cynllun Risg fel ffordd o nodi risgiau a chynllunio strategaethau gwella i reoli'r risgiau hynny. A ninnau eisoes wedi ymgynghori ynghylch ein strategaeth rheoli risg a'r cynllun gweithredu blwyddyn gyntaf a'u cwblhau rhwng Hydref 2003 a Mawrth 2004 ("Dweud eich Dweud" ac "Atal, Gwarchod, Ymateb"), fe wnaethom ni ymgynghori ynghylch ein cynllun gweithredu ail flwyddyn a'i lansio rhwng Hydref 2004 a Mawrth 2005 ("Eich Gwasanaeth, Eich Diogelwch, Eich Llais"). Gellir gweld y dogfennau hyn ar ein gwefan.

Mae'r Cynulliad yn bwriadu ymgynghori ynghylch cyfarwyddyd newydd ar lunio Cynlluniau Risg yn ystod 2005, gan gynnwys y rheidrwydd i adolygu penderfyniadau blaenorol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn gadarn.

Yn y dyfodol, rydym yn rhagweld medru cael gwell integreiddiad rhwng ein prosesau cynllunio o fewn fframwaith cyffredin Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Rydym yn disgwyl i Gynlluniau Risg, felly, ffitio i mewn i'n Cynlluniau Gwella Blynyddol fel rhan o'r fframwaith unigol hwnnw.

DRAFT

Mae'r Awdurdod Tân ac Achub eisoes wedi penderfynu diddymu ei Bwyllgor Gwerth Gorau, gan gydnabod y gellid cyfuno'r gwaith roedd y pwyllgor hwnnw'n ei wneud o'r blaen i'r gwaith a wneid ar y Cynllun Risg gan y Panel Gweithredol.

## Atal Tân Cymru (Fire Brake Wales)

Mae'r corff elusennol hwn yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth y Cynulliad a'r tri Gwasanaeth Tân ac Achub yng Nghymru i geisio gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau oherwydd tân yng Nghymru. Ceir gwybodaeth ar www.ataltan.org.

## Diogelwch yn y Gymuned yn ehangach

Yn unol â'n nodau a'n hamcanion corfforaethol, rydym hefyd wedi ymrwymo i chwarae ein rhan, lle bo'n ddoeth inni, mewn diogelwch cymunedol yn gyffredinol, nid yn unig mewn perthynas â diogelwch tân. I'r diben hwn, rydym yn parhau i ddatblygu ein gallu i ymateb i argyfyngau lleol megis damweiniau ar y fyrdd a digwyddiadau'n ymwneud â dŵr yn ogystal ag argyfyngau sydd â goblygiadau ehangach, megis digwyddiadau cemegol, biolegol, radiolegol a niwclear.

Yn 2004/05, fe wnaethom ni orffen ailstrwythuro/n sefydliad fel bod gennym bellach, yn hytrach na thri 'rhanbarth', saith swyddfa sirol – un ymhob sir yng Ngogledd Cymru ac un ychwanegol yng Ngwynedd oherwydd ei maint daearyddol. Trwy weithio fel hyn, gallwn fynd ymlaen i integreiddio'n fwy effeithiol gyda'r gwaith cymunedol sy'n cael ei wneud gan asiantaethau partneriaeth yn yr ardal.

## Y System Integredig Rheoli Risg (IPDS)

Mae'r gwaith o roi'r system newydd hon ar waith yn lleol er mwyn datblygu gweithwyr unigol a chyflawni'r nodau a'r amcanion corfforaethol hefyd yn cael ei adrodd yn rheolaidd (fel gyda'r Cynllun Risg uchod). Ceir gwybodaeth am y cynnydd yn genedlaethol ar http://www.ipds.co.uk sef gwefan canolfan IPDS yng Ngholeg y Gwasanaeth Tân yn Moreton in Marsh. Mae'r ystod o sgiliau a nodweddion sydd eu hangen ar gyfer cyflwyno gwasanaethau'n llwyddiannus i gyda yn cyfrannu at ein gallu yn gyffredinol i wireddu ein gweledigaeth o gael cymuned fwy diogel.

DRAFT

# Rhan 3

# PERFFORMIAD YN DDIWEDDAR A'R TARGEDAU AR GYFER GWELLA

**Nodiadau:**
Mae'r perfformiad ar gyfer 2002-03 fel a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yn dilyn addasiadau i gymryd y 15 diwrnod o weithredu diwydiannol y flwyddyn honno i ystyriaeth.
Mae'r DPGGion eu hunain yn y rhesi sydd â llinell igam-ogam ar y chwith.

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **DANGOSYDDION CORFFORAETHOL** | | | | | | | | | |
| 2a | Lefel safon (os oes un) y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol ar gyfer llywodraeth leol y mae'r awdurdod yn cydymffurfio ag o | Lefel 3 | Lefel 1 | Lefel 2 | Nis Mabwys-iadwyd | Nis Mabwys-iadwyd | Nis Mabwys-iadwyd | Nis Mabwys-iadwyd | Mae safonau gwahanol yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ond mae'r ddau wedi eu gosod ar 5 lefel. | Sefydlu Grŵp Cydraddoldeb newydd i yrru'r agenda cydraddoldeb yn ei flaen. |
| 2b | Y ddyletswydd i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol – ansawdd y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol sydd gan Awdurdod a'r gwelliannau sy'n digwydd o'i roi ar waith | 89% | 74% | 72% | 53% | Amh. | Amh. | Amh. | Yn ymwneud â % yr ymatebion cadarnhaol i restr o ofynion. | Fel sydd yn y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol. |
| 3 | Canran y dinasyddion sy'n fodlon â'r gwasanaeth a ddarperir gan eu hawdurdod yn gyffredinol | Amh. | Amh. | Amh. | 79.8% | Amh. | Amh. | 74% | Yn ymwneud ag arolwg ar hap, a'r % a ddywedodd eu bod naill ai'n fodlon iawn neu'n eithaf bodlon. | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (8) | Nifer yr anfonebau diddadl am nwyddau a gwasanaethau masnachol a ddaeth i law | | 10,961 | | 10,460 | 10,416 | 10,421 | 9,032 | Cyhoeddwyd cyfarwyddyd ychwanegol gan yr ODPM yn Rhagfyr 2004 ynghylch y dull o gyfrif nifer yr anfonebau. Gallai hyn olygu bod cymharu 2005/06 a blynyddoedd blaenorol yn annilys. | |
| (8) | Nifer yr anfonebau diddadl am nwyddau a gwasanaethau diddadl a delir o fewn 30 niwrnod o dderbyn y cyfryw anfonebau | | 10,145 | | 9,095 | 9,499 | 9,385 | 8,368 | | Mwy a mwy o ddefnydd o archebion a thaliadau electronig. |
| 8 | % yr anfonebau diddadl am nwyddau a gwasanaethau masnachol a delir o fewn 30 niwrnod o dderbyn y cyfryw anfonebau | 95.0% | 92.6% | 92.0% | 87.0% | 91.2% | 90.1% | 92.6% | | |
| (11) | Nifer y bobl sydd yn y 5% uchaf o enillwyr cyflog | | Delayed | | 24 | 21 | Amh. | Amh. | Lle bo nifer y gweithwyr ar yr un cyflog yn rhannu'r pwynt 5%, maent i gyd yn cael eu cynnwys. | Ymgyrch gyffredinol i ddenu mwy o geisiadau gan ferched. |
| 11a | % y 5% uchaf o enillwyr cyflog sy'n ferched | O leiaf 1 person (tua 4.8%) | Delayed | 4.8% | 4.2% | 4.8% | Amh. | Amh. | Nid yw'r dangosydd yn cymryd i ystyriaeth y gwahanol raddfeydd cyflog sydd yn y Gwasanaeth Tân ac Achub | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 11b | % y 5% uchaf o enillwyr cyflog sydd o gymunedau du a lleiafrif ethnig | O leiaf 1 person (tua 4.8%) | Delayed | 4.8% | 0 | 0 | 0 | 0 | Nid yw'r dangosydd yn cymryd i ystyriaeth y gwahanol raddfeydd cyflog sydd yn y Gwasanaeth Tân ac Achub. Yn wahanol i gynlluniau monitro ethnigrwydd, nid yw'r diffiniad o 'leiafrif ethnig' a ddefnyddir ar gyfer y dangosydd hwn yn cynnwys grwpiau lleiafrifol gwyn (megis 'gwyn Gwyddelig'). | Ymgyrch gyffredinol i ddenu rhagor o geisiadau gan leiafrifoedd ethnig. |
| NEWYDD 11c | % o'r 5% uchaf o enillwyr cyflog sydd ag anabledd | O leiaf 1 person (tua 4.8%) | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005. Y diffiniad o fod ag anabledd yw bod â nam sy'n cael effaith sylweddol a hirdymor ar allu rhywun i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. | |
| (12i) | Diwrnodiau/gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd salwch fesul aelod lifrai llawn amser | | Delayed | | 3591 | 3755 | 3212 | 3225 | . | |
| (12i) | Nifer ar gyfartaledd y staff lifrai llawn amser | | Delayed | | 328 | 327 | 321 | 316 | | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 12i | Diwrnodiau gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd salwch fesul aelod o staff lifrai llawn amser (gan gynnwys yr ystafell reoli) | 6.5 | Delayed (tua 12.4) | 6.5 | 10.9 | 11.5 | 10 | 10.2 | Yn ymwneud â diwrnodiau neu shifftiau oedd i fod i gael eu gweithio. Mae'r targed cenedlaethol yn ceisio cael colli 6.5 fesul diffoddwr tân a 5.4 fesul gweithredydd yn yr ystafell reoli. | Mentrau parhaus yn cynnwys: mynediad at gyngor a gwasanaethau iechyd, hyfforddiant ar asesu risg, a darparu dyletswyddau gwahanol. |
| (12ii) | Nifer y diwrnodiau gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd salwch gan yr holl staff | | Delayed | | | | | | | |
| (12ii) | Nifer ar gyfartaledd y gweithwyr | | Delayed | | | | | | | |
| 12ii | Diwrnodiau gwaith/shifftiau a gollwyd oherwydd salwch fesul aelod o staff (o ran holl aelodau'r staff) | 6.5 | Delayed (tua 12.2) | 6.5 | 11.2 | 11.9 | 11.6 | 10.4 | Fel uchod. | Fel uchod. |
| (15i) | Nifer y gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân sy'n ymddeol ar sail afiechyd | | Delayed | | 3 | 0 | 3 | 4 | Nid yw staff yr ystafell reoli na'r staff di-lifrai yn gymwys i ymuno â'r cynllun pensiwn hwn. | |
| (15i) | Nifer y gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân. | | Delayed | | 297 | 293 | 288 | 289 | | |
| 15i | Canran y gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn y diffoddwyr tân sy'n ymddeol ar sail afiechyd. | 3 o bobl | Delayed | 1% | 1% | 0% | 1.0% | 1.4% | | Dilynir canllawiau cenedlaethol. |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (15ii) | Nifer y gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn llywodraeth leol sy'n ymddeol ar sail afiechyd. | | Delayed | | 2* | 0 | 3 | 2 | * Roedd camgymeriad yn yr ystadegau a gyhoeddwyd gan yr ODPM, sef adroddwyd bod tri yn hytrach na dau. Cafwyd dryswch oherwydd diswyddwyd unigolyn ar sail feddygol, ond nid ymddeol a wnaeth. | |
| (15ii) | Nifer y gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn llywodraeth leol. | | Delayed | | 128 | 123 | 119 | 106 | | |
| 15ii | Canran y gweithwyr sy'n gymwys i ymuno â chynllun pensiwn llywodraeth leol sy'n ymddeol ar sail afiechyd. | 1 person | Delayed | 1% | 1.6%* | 0 | 2.5% | 1.9% | * Gweler uchod.<br><br>Yn ymwneud â'r Ystafell Reoli a staff di-lifrai. | Fel uchod. |
| (16ai) | Nifer y staff lifrai llawn amser a'r system ddyletswydd ran amser sydd ag anabledd. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (16ai) | Nifer ar gyfartaledd y staff llawn amser a'r system ddyletswydd ran amser. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| 16a(i) | Canran y staff lifrai llawn amser a'r system ddyletswydd ran amser sydd ag anabledd. | Cynnal awdit o'r staff i gael y niferoedd. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (16aii) | Nifer staff yr ystafell reoli a'r staff di-lifrai sydd ag anabled. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (16aii) | Nifer ar gyfartaledd staff yr ystafell reoli a'r staff di-lifrai. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEWYDD 16a(ii) | Canran staff yr ystafell reoli a'r staff di-lifrai sydd ag anabled. | Cynnal awdit o'r staff i gael y niferoedd. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| NEWYDD 16b | Canran y boblogaeth economaidd-weithgar yn ardal yr awdurdod sydd ag anabledd. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 Cafwyd o dablau Cyfrifiad 2001 y Swyddfa Ystadegau Gwladol. | |
| (17a) | Nifer y staff llawn amser, y system ddyletswydd ran amser a staff yr ystafell reoli sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol. | | Delayed | | 2* | 1 | 3 | 3 | *Nid yw pobl sy'n eu disgrifio eu hunain yn 'gwyn Gwyddelig' yn cael eu cynnwys yn ymhlith y bobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol yn y dangosydd hwn. | |
| (17a) | Nifer ar gyfartaledd y staff llawn amser, y system ddyletswydd ran amser a staff yr ystafell reoli sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. | | Delayed | | 928 | 906 | 901 | 907 | | |
| 17a | Canran y staff llawn amser, y system ddyletswydd ran amser a staff yr ystafell reoli sydd o gefndir ethnig lleiafrifol. | 0.7 | Delayed | 0.7% | 0.2% | 0.1% | 0.3% | 0.3% | Mae'r targed yn ceisio cael y ganran yn y gweithlu i gyd-fynd â'r ganran yn y gymuned. | Fel ar gyfer BV11(b) |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 17b | Canran y boblogaeth economaidd-weithgar (pobl 18-54 oed) sydd o gefndiroedd ethnig lleiafrifol sydd yn ardal y gwasanaeth tân ac achub. | | *Llai na 1.0% | | *Llai na 1.0% | 0.7% | 0.7% | 0.7% | *Mae data cyfrifiad 2001 fel y maent ar wefan y Cynulliad. Serch hynny, nid oes dadansoddiad ar gael o faint o'r 6,800 o bobl o leiafrifoedd ethnig nad ydynt yn wyn sydd yn y grŵp oedran 18-54. Mae gwybodaeth debyg trwy'r Swyddfa Ystadegau Gwladol/Ystadegau'r Llafurlu (NOMIS) wedi cael eu tynnu i ffwrdd i'w newid. | |
| (210) | Nifer y diffoddwragedd tân (lifrai gweithredol llawn amser a dyletswydd ran amser) | 25 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (210) | Nifer ar gyfartaledd y diffoddwyr tân a gyflogir (lifrai gweithredol llawn amser a dyletswydd ran amser). | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEW 210 | Canran y diffoddwragedd tân. | (25 o bobl) | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |

DRAFT

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 157 | Nifer y mathau o ryngweithiadau rhwng dinasyddion ar awdurdod sy'n bosib yn electronig fel % o'r rhyngweithiadau sy'n bosib yn gyfreithiol eu cyflwyno'n electronig. | 75% | 60% | 75% | 54% | 28% | Amh. | Amh. | Mae'r targed yn Lloegr yn ceisio cael 100% o alluogrwydd ar gyfer gwasanaethau blaenoriaeth erbyn 2005. Nid yw gwasanaethau blaenoriaeth wedi cael ei ddiffinio ar gyfer yr Awdurdodau Tân ac Achub. Ni fabwysiadwyd yr un targed yng Nghymru. | Prosiectau parhaus, ac fel y maent yn y datganiad Datganiad Gweithredu E-Lywodraeth (IEG). Hefyd, rhan y Gwasanaeth Tân ac Achub yn strategaeth 'Cymru Ar Lein' Llywodraeth y Cynulliad. |
| | **DANGOSYDDION ARBENNIG I'R GWASANAETH** | | | | | | | | | |
| (142i) | Cyfanswm nifer y galwadau at danau (ac eithrio galwadau diangen). | Amh. | 4414 | 5000 | 6081 | 5781* | 5868 | 5349 | *5540 rhag-addasiad | Gweithgareddau DTC. |
| 142i | Cyfanswm y galwadau at danau (ac eithrio galwadau diangen) fesul 10,000 o bobl. | Amh. | Amh. | 75 | 91.7 | 87.0 | 88.4 | 80.9 | Daeth y ben wedi 2004/05. | |
| (142ii) | Nifer y prif danau. | 1800 | 1827 | 1875 | 2196 | 2252 | 2358 | 2332 | | Gweithgareddau DTC. |
| 142ii | Prif danau fesul 10,000 o bobl | 26.8 | 27.2 | 28.0 | 33.1 | 33.7 | 35.5 | 35.3 | | |
| (142iii) | Nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi. | 490 | 502 | 505 | 528 | 571 | 604 | 618 | | Gweithgareddau DTC. |
| 142iii | Tanau damweiniol mewn cartrefi fesul 10,000 o gartrefi. | 16.5 | 16.9 | 17 | 18.1 | 19.4 | 20.7 | 21.2 | | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (143i) | Nifer y marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. | 4 | 3 | 4 | 5 | 6 | 10 | 4 | Weithiau gellir adolygu'r ffigurau yn dilyn gwirio tystysgrifau marwolaeth. | Gweithgareddau DTC. |
| 143i | Marwolaethau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi fesul 100,000 o bobl. | 0.60 | 0.45 | 0.6 | 0.75 | 0.89 | 1.50 | 0.60 | | |
| (143ii) | Nifer yr anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. | 67 | 116 | 67 | 88 | 102 | 87 | 77 | | Gweithgareddau DTC a pholisïau iechyd a diogelwch y Gwasanaeth. |
| 143ii | Anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi fesul 100,000 o bobl. | 10 | 17.3 | 10 | 13.4 | 15.3 | 13.1 | 11.6 | | |
| 144c | % y tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd yn ardaloedd risg C. | Amh. | Amh. | Amh. | 92.9% | 90.1% | 93.3% | 89.5% | O 01/04/04, bydd 144c a 144d yn cael eu mesur fel un dangosydd sengl sy'n berthnasol i <u>bob</u> ardal, ers dod â'r hen gategorïau ardaloedd risg ardaloedd i ben. | DTC ac ymateb yr ochr weithredol. |
| 144d | % y tanau damweiniol mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd mewn ardaloedd risg D. | Amh. | Amh. | Amh. | 91.3% | 90% | 91.4% | 88.9% | Gweler y nodyn uchod. | - |
| 144 | Nifer yr anafiadau oherwydd tanau damweiniol mewn cartrefi. | 458 | 458 | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| 144 | Nifer y tanau damweiniol a mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd. | 490 | 502 | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 144 | % y tanau damweiniol a mewn cartrefi a gyfyngwyd i'r ystafell lle cychwynnodd (ym mhob ardal) | 93.5% | 91.3% | 93.6% | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| 145i | % y galwadau at danau lle cyrhaeddwyd y safonau cenedlaethol ar gyfer peiriannau. | Amh. | Amh. | Amh. | 100% | 100% | 100% | 100% | Daeth yr hen safonau i ben ar 31/03/04 | - |
| 145ii | % y galwadau at danau lle cyrhaeddwyd y safonau cenedlaethol ar gyfer reidwyr. | Amh. | Amh. | Amh. | 92.1% | 94.2% | 90.1% | 92.2% | Daeth yr hen safonau i ben ar 31/03/04 | - |
| 145iii | % y galwadau at danau lle cyrhaeddwyd y safonau cenedlaethol ar gyfer amseroedd cyrraedd. | Amh. | Amh. | Amh. | 95.6% | 96.7% | 96.3% | 95.8% | Daeth yr hen safonau i ben ar 31/03/04 | - |
| 146 | Nifer y galwadau ffug maleisus yr aethpwyd atynt (mae addasiad 2002-03 mewn cromfachau) | 250 | 271 | 265 | 399 | 391(408) | 478 | 491 | | Gweithdrefnau herio galwadau, gan gynnwys datgysylltu ffonau symudol. |
| 146 | Nifer y galwadau ffug maleisus nad aethpwyd atynt (mae addasiad 2002-03 mewn cromfachau) | 676 | 659 | Amh. | 702 | 691(723) | 680 | 697 | | |
| 146 | Cyfanswm nifer y galwadau ffug maleisus a gafwyd. | 926 | 930 | Amh. | 1101 | 1082(1131) | 1158 | 1188 | Gweler y nodyn isod. | |
| HEN 146 | Nifer y galwadau ffug maleisus yr aethpwyd atynt fesul 1,000 o bobl | Amh. | 0.4 | 0.4 | 0.6 | 1.7 | 0.7 | 1.8 | Roedd y ffigurau a gyhoeddwyd gan yr ODPM yn cynnwys hefyd (mewn camgymeriad) y ffigurau nad aethpwyd atynt. | |
| NEWYDD 146i | Nifer y galwadau ffug maleisus nad aethpwyd atynt fesul 1,000 o bobl | 1.0 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NEWYDD 146ii | Nifer y galwadau ffug maleisus yr aethpwyd atynt fesul 1,000 o bobl. | 0.4 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| 147 | Nifer ar gyfartaledd y diwrnodiau i roi tystysgrifau diogelwch tân | Amh. | Amh. | Amh. | 65 | 85 | 84 | 55 | Daethpwyd i ben ar 31/03/04. | |
| (HEN 149) | Galwadau diangen oherwydd systemau larwm mwg awtomatig (ym mhob eiddo). | Amh. | 2883 | 2790 | 3100 | 3091 | 3004 | 3011 | | Cyfeirier at y Cynllun Risg. |
| HEN 149 | Galwadau diangen gan systemau larwm mwg awtomatig (ym mhob eiddo) fesul 1,000 o eiddo annomestig. | Amh. | 109.2 | 105 | 117.5 | 116.7 | 113.0 | 113.2 | Daeth i ben ar 31/03/04. Mae'r dangosydd yn cynnwys galwadau diangen o eiddo domestig ac annomestig. | Mae'r targed ar gyfer 2004-05 yn adlewyrchu'r 10% o ostyngiad yn y targed sydd yn y Cynllun Risg. |
| NEWYDD149i | Galwadau diangen oherwydd systemau larwm tân awtomatig *mewn eiddo annomestig yn unig), fesul 1,000 o eiddo annomestig. | Monitro trwy gydol y flwyddyn, a datblygu targed pan fyddir yn deall digon. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| NEWYDD 149ii | Nifer yr eiddo yr aethpwyd atynt fwy nag 1 waith. | Monitro trwy gydol y flwyddyn, a datblygu targed pan fyddir yn deall digon. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| NEWYDD 149iii | Canran y galwadau at eiddo lle'r aethpwyd fwy nag 1 waith. | Monitro trwy gydol y flwyddyn, a datblygu targed pan fyddir yn deall digon. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (206) | Nifer y prif danau bwriadol. | Amh. | 690 | 874 | 971 | Amh. | Amh. | Amh. | Mae'r targed cenedlaethol yn ceisio cael 10% o ostyngiad erbyn Mawrth 2010 o waelodlin 2001-02. | Gweithio mewn partneriaeth er mwyn gweld gostyngiad yn y cyfleoedd i gynnau tanau'n fwriadol, a'r niferoedd. |
| 206 | Prif danau bwriadol fesul 10,000 o bobl. | Amh. | 10.3 | 13.1 | 14.6 | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd dangosydd newydd yn 2004-05. Daeth i ben wedi 31/03/05. | |
| (206i) | Prif danau bwriadol (ac eithrio prif danau mewn cerbydau) | 250 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEW 206i | Prif danau bwriado (ac eithrio prif danau mewn cerbydau) fesul 10,000 o bobl. | 3.7 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| (206ii) | Prif danau bwriadol mewn cerbydau | 403 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| NEW 206ii | Prif danau bwriadol mewn cerbydau fesul 10,000 o bobl. | 6 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (206iii) | Tanau eilaidd bwriadol (ac eithrio tanau eilaidd mewn cerbydau) | 2500 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEW 206iii | Tanau eilaidd bwriadol (ac eithrio tanau eilaidd mewn cerbydau) fesul 10,000 o bobl. | 37.3 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| (206iv) | Tanau eilaidd bwriadol mewn cerbydau. | 30 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEW 206iv | Tanau eilaidd bwriadol mewn cerbydau fesul 10,000 o bobl. | 0.45 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| (207) | Nifer y tanau mewn eiddo annomestig. | 396 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Ac eithrio tanau mewn tai amlfeddiannaeth. | |
| NEWYDD 207 | Tanau mewn eiddo annomestig fesul 1,000 o eiddo annomestig. | 15 | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Ac eithrio tanau mewn tai amlfeddiannaeth.<br><br>Cyflwynwyd Ebrill 2005. | Bydd y gorchymyn diwygio rheoleiddio yn newid y ffordd o asesu a rheoli risgiau mewn eiddo annomestig. Bydd polisïau'r Gwasanaeth sy'n gysylltiedig â'r newid hwn yn cael eu cyflwyno i gyd-fynd â'r newidiadau. |
| (208) | Nifer y bobl a aeth allan o'u cartrefi o ganlyniad i dân damweiniol. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (208) | Nifer y bobl a aeth allan o'r eiddo heb anaf a heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEWYDD 208 | Canran y bobl mewn tanau damweiniol a ddihangodd heb niwed a heb gymorth y gwasanaeth tân ac achub yn y tân. | Monitro trwy gydol y flwyddyn, a datblygu targed pan fyddir yn deall digon. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd Ebrill 2005 | Gweithgareddau DTC, yn cynnwys rhaglenni ysgolion. |
| (209i) | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos). | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (209i) | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle canodd larwm mwg. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |

| DPGG | Diffiniad | Targed 2005-06 | Gwir (am y tro) 2004-05 | Targed 2004-05 | Gwir 2003-04 | Gwir 2002-03 | Gwir 2001-02 | Gwir 2000-01 | Nodiadau a Sylwadau | Gweithgareddau penodol o ran gwelliant |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| NEWYDD 209i | Canran y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle canodd larwm mwg. | 45% | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| (209ii) | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos). | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (209ii) | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle roedd larwm mwg ond na chanodd. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEWYDD 209ii | Canran y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle roedd larwm mwg ond na chanodd. | 20% | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| (209iii) | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos). | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| (209iii) | Nifer y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle nad oedd larwm mwg. | | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | | |
| NEWYDD 209iii | Canran y tanau yr aethpwyd atynt mewn cartrefi (pob achos) lle nad oedd larwm mwg. | 35% | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Amh. | Cyflwynwyd yn Ebrill 2005 | |
| 150 | Gwariant y pen o'r boblogaeth | £41.67 | £37.22 | £39.95 | £34.50 | £34.30 | £32.50 | £31.80 | | Monitro gwariant yn ofalus trwy gydol y flwyddyn. |

DRAFT

# CYMHARIAETHAU GRŴP TEULU 3 a CHYMRU 2003 -04

Mae'r tabl sy'n dilyn yn rhoi dadansoddiad o berfformiad cymharol yr awdurdodau tân ac achub sydd yng Ngrŵp Teulu 3 mewn perthynas a'r holl DPGGau. Er gwybodaeth ychwanegol rhoddir gwybodaeth am berfformiad Awdurdod Tân ac Achub De Cymru – sy'n aelod o Grŵp Teulu 4 – wrth ymyl. Mae'r rhai sy'n perfformio waethaf ar y chwith, a'r gorau ar y dde, a'r canlyniad gwir yn dod o danodd.

DRAFFT

| DPGG | De Cymru* (grŵp teulu gwahanol) | Perfformio waethaf | Cymhariaeth grŵp teulu 2003-04 | | | | | Perfformio orau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2a | | | S. Lincoln | Cumbria, Gog. S. Efrog | | Dyfnaint | Canol. a Gorll. | Henff. a Chaerwrang. |
| | 1 | | < 1 | 1 | | 2 | | 3 |
| 2b | | Cumbria | Gog. S. Efrog | S. Lincoln, Canol. a Gorll., **Gog. Cymru** | | | Henff. a Chaerwrang. | Dyfnaint |
| | 26 | 16 | 47 | 53 | | | 58 | 89 |
| 3 | | | | | Henff. a Chaerwrang. | Dyfnaint | Canol. a Gorll. | **Gog. Cymru** |
| | 75.2 | | | | 71.5 | 74.0 | 77.1 | 79.8 |
| 8 | | | | **Gog. Cymru** | Canol. a Gorll. | Henff. a Chaerwrang. | Gog. S. Efrog | Dyfnaint |
| | 92.4 | | | 87.0 | 90.4 | 93.1 | 96.2 | 97.2 |
| 11a | | Cumbria | Henff. a Chaerwrang. | Dyfnaint | **Gog. Cymru** | Canol. a Gorll. | Gog. S. Efrog | S. Lincoln |
| | 3.3 | 0.0 | 2.5 | 2.7 | 4.2 | 5.7 | 6.3 | 21.4 |
| 11b | | Cumbria, Canol. a Gorll., Gog. S. Efrog, **Gog. Cymru** | | | | Henff. a Chaerwrang. | Dyfnaint | S. Lincoln |
| | 0 | 0 | | | | 2.5 | 2.7 | 7.1 |
| 12i | | Gog. S. Efrog | S. Lincoln, **Gog. Cymru** | | Dyfnaint | Canol. a Gorll. | Cumbria | Henff. a Chaerwrang. |
| | 9.8 | 11.2 | 10.9 | | 10.0 | 9.4 | 9.1 | 8.5 |
| 12ii | | | | **Gog. Cymru** | Gog. S. Efrog | Canol. a Gorll. | Dyfnaint | Henff. a Chaerwrang. |
| | 11.2 | | | 11.2 | 11.1 | 9.7 | 9.5 | 9.1 |
| 15i | | Gog. S. Efrog | S. Lincoln | Cumbria | Canol. a Gorll. | **Gog. Cymru** | Henff. a Chaerwrang. | Dyfnaint |
| | 1.7 | 4.8 | 2.6 | 1.8 | 1.4 | 1.0 | 0.9 | 0.4 |
| 15ii | | **Gog. Cymru** | Gog. S. Efrog | Henff. a Chaerwrang. | Canol. a Gorll. | S. Lincoln, Dyfnaint, Cumbria | | |
| | 0 | 1.6 | 0.8 | 0.8 | 0.5 | 0 | | |
| 17 | | Cumbria | Canol. a Gorll. | **Gog. Cymru** | Gog. S. Efrog | Dyfnaint | Henff. a Chaerwrang. | S. Lincoln |
| | 0.6 | 0 | 0.1 | 0.2 | 0.3 | 0.4 | 0.8 | 0.9 |
| 157 | | | Gog. S. Efrog | Cumbria | Canol. a Gorll. | S. Lincoln | **Gog. Cymru** | Henff. a Chaerwrang. |
| | 64.6 | | 20 | 29 | 30 | 42.1 | 54 | 78 |
| 142i | | Canol. a Gorll. | **Gog. Cymru** | Cumbria | Henff. a Chaerwrang. | S. Lincoln | Dyfnaint | Gog. S. Efrog |
| | 149.2 | 107.4 | 91.7 | 89.0 | 66.5 | 63.7 | 61.1 | 55.5 |
| 142ii | | Canol. a Gorll. | **Gog. Cymru** | Cumbria | S. Lincoln | Dyfnaint | Gog. S. Efrog | Henff. a Chaerwrang. |
| | 44.1 | 40.4 | 33.1 | 32.9 | 28.8 | 27.6 | 25.3 | 23.6 |
| 142iii | | Canol. a Gorll. | Cumbria | **Gog. Cymru** | Dyfnaint | Henff. a Chaerwrang. | Gog. S. Efrog | S. Lincoln |
| | 15.8 | 21.6 | 20.8 | 18.1 | 17.6 | 14.4 | 13.9 | 12.9 |
| 143i | | Canol. a Gorll. | S. Lincoln, **Gog. Cymru** | | Gog. S. Efrog | Henff. a Chaerwrang. | Dyfnaint | Cumbria |
| | 0.71 | 0.82 | 0.75 | | 0.66 | 0.55 | 0.46 | 0.41 |
| 143ii | | Canol. a Gorll. | S. Lincoln | Cumbria | **Gog. Cymru** | Dyfnaint | Gog. S. Efrog | Henff. a Chaerwrang. |
| | 10.3 | 17.9 | 14.3 | 13.9 | 13.4 | 12.0 | 9.2 | 5.6 |
| 144c | | Gog. S. Efrog | Henff. a Chaerwrang. | Canol. a Gorll., S. Lincoln | | Dyfnaint | **Gog. Cymru** | Cumbria |
| | 89.4 | 89.6 | 90.6 | 91.4 | | 91.8 | 92.9 | 93.4 |
| 144d | | Dyfnaint | S. Lincoln | Henff. a Chaerwrang. | Canol. a Gorll. | Gog. S. Efrog | Cumbria | **Gog. Cymru** |

| DPGG | De Cymru* (grŵp teulu gwahanol) | Perfformio waethaf | Cymhariaeth grŵp teulu 2003-04 ← → | | | | | Perfformio orau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 83.1 | 81.6 | 83.4 | 84.9 | 85.0 | 88.3 | 91.2 | 91.3 |
| **145i** | | Gog. S. Efrog | Cumbria | S. Lincoln | Henff. a Chaerwrang., Dyfnaint, Canol. a Gorll., **Gog. Cymru** | | | |
| | 100 | 87.0 | 99.6 | 99.8 | 100 | | | |
| **145ii** | | Gog. S. Efrog | Cumbria | Dyfnaint | S. Lincoln | **Gog. Cymru** | Canol. a Gorll. | Henff. a Chaerwrang. |
| | 88.7 | 44.0 | 82.2 | 84.4 | 87.7 | 92.1 | 95.1 | 97.5 |
| **145iii** | | Gog. S. Efrog | Dyfnaint | S. Lincoln | **Gog. Cymru** | Cumbria | Henff. a Chaerwrang. | Canol. a Gorll. |
| | 95.1 | 83.0 | 92.6 | 94.9 | 95.6 | 97.6 | 97.8 | 99.6 |
| **146** | | Canol. a Gorll., S. Lincoln | | Cumbria, Dyfnaint, **Gog. Cymru** | | | Henff. a Chaerwrang. | Gog. S. Efrog |
| | 0.8 | 0.8 | | 0.6 | | | 0.5 | 0.4 |
| **147** | | S. Lincoln | Gog. S. Efrog | **Gog. Cymru** | Dyfnaint | Cumbria | Henff. a Chaerwrang. | Canol. a Gorll. |
| | 117 | 90 | 87 | 65 | 46 | 43 | 38 | 28 |
| **149** | | Dyfnaint | **Gog. Cymru** | Henff. a Chaerwrang. | Gog. S. Efrog | Cumbria | Canol. a Gorll. | S. Lincoln |
| | 122.8 | 129.7 | 117.5 | 114.3 | 113.9 | 92.7 | 82.7 | 75.4 |
| **150** | | Canol. a Gorll. | Dyfnaint | **Gog. Cymru** | Cumbria | Henff. a Chaerwrang. | Gog. S. Efrog | S. Lincoln |
| | 36.6 | 38.9 | 35.4 | 34.5 | 34.2 | 30.8 | 28.3 | 26.6 |

**ALLWEDD:**
Yr Awdurdodau Tân ac Achub sy'n aelodau o Grŵp Teulu 3 yw:
Gogledd Cymru (Gog. Cymru); Dyfnaint (Dyfnaint); Cumbria (Cumbria); Canolbarth a Gorllewin Cymru (Canol. a Gorll.); Gogledd Swydd Efrog (Gog. S. Efrog); Swydd Lincoln (S. Lincoln)
Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn aelod o Grŵp Teulu 4.

DRAFT

# Rhan 4
# DATGANIAD AR GYTUNDEBAU

Y Côd Ymarfer ar Faterion y Gweithlu yng Nghytundebau Gwasanaeth Awdurdodau Lleol.

Mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru yn datgan ac yn tystio na chafodd unrhyw gytundeb unigol ei roi yn ystod y flwyddyn diwethaf sy’n ymwneud ag adleoli staff lle byddai’r Côd Ymarfer uchod yn berthnasol.

DRAFFT